



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Sarah



Heddiw, rydw i eisiau rhannu â chi ddwy ffordd mae fy addysgu wedi newid ers i mi symud cymaint o'm gwaith ar-lein.

Y peth cyntaf rydw i eisiau siarad amdano yw offeryn newydd rydw i'n ei ddefnyddio, sef fideo. Yn yr un modd rydw i'n siarad â chi heddiw, rydw i'n creu'r fideos bach hynny'n eithaf rheolaidd i'w defnyddio gyda'm myfyrwyr. Rydw i bob amser yn eu defnyddio os ydw i'n cyfarfod ac yn cyfarch grŵp newydd. Ac mae hynny'n fuddiol iawn, yn fy marn i, gan ei fod yn gwneud y profiad o ddod i ddsbarth newydd gryn dipyn yn llai brawychus os ydych chi wedi cyfarfod â'ch athro newydd a'ch bod yn gallu dychmygu sut olwg sydd arno. Felly, am y rheswm hwnnw, rydw i'n gwneud hynny bob tro mae gen i ddsbarth newydd.

Hefyd, rydw i'n ei ddefnyddio yn fwy cyffredinol i gymysgu pethau ychydig. Os ydw i eisiau darllen i gael pwyntiau neu eisiau crynhoi gwers, byddaf yn aml yn siarad yn uniongyrchol i'r camera yn anffurfiol iawn, fel rydw i nawr, gyda chamgymeriadau. Ond o leiaf ei fod yn golygu fy mod i'n siarad â'm disgyblion yn eu cartrefi eu hunain, ac rydw i'n meddwl ei fod yn ychwanegu dimensiwn gwahanol at fy addysgu.

Yr ail beth sydd wedi newid â'm haddysgu ar-lein, yn fy marn i, yw fy mod i'n fwy trefnus o lawer, mewn gwirionedd; trefnus o ran rheolaeth ystafell ddsbarth. Rydw i'n ymwybodol fod angen i mi wirio'n gyson fod fy myfyrwyr yn dilyn y dudalen gywir, neu'u bod yn defnyddio'r llyfr cywir, eu bod wedi deall yr hyn rydw i newydd ei ddweud, eu bod yn deall beth yw eu gwaith cartref. Gan nad oes gen i giwiau gweledol siarad â ddsbarth, rydw i'n gwirio'r holl bethau hyn yn llawer mwy rheolaidd. Ac mae hynny'n fuddiol iawn i lawer o wahanol fyfyrwyr, mewn gwirionedd.

Yn benodol, i rywun sydd ag ADHD, er enghraifft, mae'n ei gadw ar y trywydd cywir. Mae'n ei gadw yn y lle cywir o fewn y wers. Ond, yn fwy cyffredinol, mae'n cadw dod â phobl yn ôl. A dydw i ddim yn gwneud unrhyw ragdybiaethau am yr hyn rydw i'n meddwl mae pobl yn ei ddeall. Ac yn hytrach, rydw i'n creu mwy o ddeialog, bron.

Byddech chi'n meddwl y byddai gweithio ar-lein gan ddefnyddio microffonau a meddalwedd yn creu llai o ddeialog, ond yn yr ystyr hwnnw, i mi, rydw i o'r farn fod y ffordd y bu'n rhaid i mi newid fy addysgu yn ei hanfod, wedi agor mwy o ddeialog, ac rydw i'n cadw'r sgwrs hon bron yn gyson â'm dosbarthiadau nawr, ac yn gwirio bod pawb gyda mi o hyd.

Felly, mae hynny'n newid sylfaenol, mewn gwirionedd, yn y ffordd rydw i'n addysgu. Ac rydw i'n gweld nawr pan fydda' i'n addysgu wyneb yn wyneb, fod y technegau rydw i wedi eu defnyddio yn hynny o beth yn mynd gyda mi.

Felly dau beth gwahanol iawn, ond dwy ffordd y mae fy addysgu wedi newid yn sylweddol â'r gwaith rydw i wedi bod yn ei wneud ar-lein, yn fy marn i. Diolch.